

2019 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A44
(Llanbadarn Fawr, Ceredigion)
(Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a
Cherddwyr Dros Dro) 2019

Gwnaed 1 Tachwedd 2019

Yn dod i rym 9 Tachwedd 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A44, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Llanbadarn Fawr, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 9 Tachwedd 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

2019 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A44 Trunk Road (Llanbadarn
Fawr, Ceredigion) (Temporary
Prohibition of Vehicles, Cyclists
and Pedestrians) Order 2019

Made 1 November 2019

Coming into force 9 November 2019

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A44 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title, Commencement and Interpretation

1. The title of this Order is the A44 Trunk Road (Llanbadarn Fawr, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2019 and it comes into force on 9 November 2019.

2. In this Order:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 22:00 ar 9 Tachwedd 2019 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A44 Llangurig i Aberystwyth yn Llanbadarn Fawr sy’n ymestyn 190 o fetrau i’r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth sy’n arwain at Ystad Ddiwydiannol Glanyrafon hyd at bwynt 200 metr i’r gorllewin o’r gyffordd honn.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn y Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn y Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn y Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthygl 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

1 Tachwedd 2019

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A44
(LLANBADARN FAWR, CEREDIGION)
(GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A
CHERDDWYR DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A44 Llangurig to Aberystwyth trunk road at Llanbadarn Fawr that extends 190 metres west from the centre-point of its junction with the unclassified road leading to Glanyrafon Industrial Estate to a point 200 metres west of that junction;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 22:00 on the 9 November 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road specified in this Order.

Application

6. The prohibitions in article 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

1 November 2019

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

**THE A44 TRUNK ROAD (LLANBADARN
FAWR, CEREDIGION) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS
AND PEDESTRIANS) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the

gwaith ar gefnffordd yr A44, neu gerllaw iddi, yn Llanbadarn Fawr, Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A44 yn Llanbadarn Fawr sy'n ymestyn 190 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Ystad Ddiwydiannol Glanyrafon hyd at bwynt 200 metr i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin fydd mynd ar yr A4159 (Bow Street) tua'r gogledd-orllewin, yr A487 (Ffordd Penglais) tua'r gorllewin ac ailymuno â'r A44 (Ffordd Llanbadarn) tua'r de-ddwyrain. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol dros nos o 22:00 o'r gloch ar 9 Tachwedd 2019 hyd 06:00 o'r gloch ar 10 Tachwedd 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos tua 2 wythnos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A44 trunk road at Llanbadarn Fawr, Ceredigion.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A44 trunk road at Llanbadarn Fawr that extends 190 metres west from the centre-point of its junction with the unclassified road leading to Glanyrafon Industrial Estate to a point 200 metres west of that junction.

The alternative route for westbound traffic will be via the A4159 (Bow Street) north-westbound, A487 (Penglais Road) westbound and re-join the A44 (Llanbadarn Road) south-eastbound. Vice versa for eastbound traffic.

It is expected that the prohibitions, which will be signed accordingly, will operate overnight from 22:00 hours on 9 November 2019 until 06:00 hours on 10 November 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed approximately 2 weeks before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

